# Arfarnu ceisiadau am gyfleusterau cyllid a chredyd busnes

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag arfarnu ceisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd a gyflwynwyd gan gwsmeriaid busnes. Bydd angen i chi roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith a chasglu gwybodaeth ddilys gan gwsmeriaid busnes ynghylch eu busnes a'r cynnig y mae arnynt angen gyfleusterau cyllid neu gredyd ar eu cyfer, ac asesu'r wybodaeth honno cyn gwneud argymhellion i ganiatáu neu wrthod cyfleusterau cyllid neu gredyd. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi werthuso gwybodaeth fel mantolenni neu gynlluniau busnes er mwyn arfarnu dichonoldeb y cynnig ac asesu'r risg cyllid neu gredyd. Mae'n hanfodol eich bod yn gwybod am y canllawiau a ddefnyddir yn eich sefydliad, a'ch bod yn gallu gweithredu oddi mewn iddyn nhw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi, cadarnhau a chofnodi gofynion ariannu neu gredyd y cwsmer, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Casglu'r holl wybodaeth a dogfennaeth angenrheidiol i gynnal asesiad o geisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Asesu amcanion, targedau busnes, cryfderau a gwendidau'r cwsmer, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Cwblhau'r holl wiriadau credyd perthnasol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Asesu dichonoldeb busnes y cwsmer gan ddefnyddio gwybodaeth ariannol ac anariannol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Asesu'r angen am sicrwydd, a'i argaeledd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Casglu'r holl brisiadau ac adroddiadau angenrheidiol am asedau eich cwsmer, a gynigiwyd fel sicrwydd, a'u cymharu â phrisiad eich cwsmer, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Ceisio eglurhad gan gwsmeriaid pan fydd asesiadau'n datgelu anghysondebau neu elfennau nad ydynt yn cyfateb
9. Ystyried yr holl ffactorau asesu wrth wneud penderfyniadau i ganiatáu, neu wrthod, cyfleusterau cyllid neu gredyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Cyflwyno argymhellion clir i'r awdurdod priodol pan fydd rhaid atgyfeirio'r cais, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. Hysbysu cwsmeriaid ynghylch y penderfyniad i ganiatáu neu wrthod cyfleusterau cyllid neu gredyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
12. Esbonio'r opsiynau benthyca posibl a'u nodweddion a'u manteision, ynghyd â'r holl wybodaeth hanfodol ynghylch yr opsiynau hyn, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
13. Cadw cofnodion cyflawn o'r camau a gymerwyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
14. Nodi risgiau posibl yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
15. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar eich gwaith
2. Y mathau o gyfleuster cyllid neu gredyd y mae gennych awdurdod i'w hyrwyddo a'u gwerthu a'r amodau sy'n berthnasol iddynt
3. Manteision a nodweddion pob cyfleuster yr ydych wedi'ch awdurdodi i'w hyrwyddo a'u gwerthu
4. Y bobl y gallwch chi droi atynt am gymorth gydag ymholiadau cwsmeriaid
5. Yr wybodaeth a'r dogfennau bydd angen i chi eu casglu i gynnal asesiad o geisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd
6. Canllawiau a gofynion eich sefydliad ynghylch yr angen am sicrwydd, a'r mathau o sicrwydd, sy'n ofynnol wrth gynnig cyfleusterau cyllid neu gredyd i gwsmeriaid
7. Y ffactorau asesu y mae angen i chi eu hystyried wrth arfarnu ceisiadau am gyllid neu gredyd, gan gynnwys gwybodaeth anariannol, megis strwythur busnes y cwsmer a thueddiadau a datblygiadau cyfredol a rhai a ragwelir yn y farchnad
8. Sut mae gwerthuso a dehongli gwybodaeth ariannol
9. Y berthynas rhwng gwybodaeth anariannol ac ariannol
10. Canllawiau mewnol eich sefydliad ynghylch dilysu sicrwydd
11. Canllawiau eich sefydliad ar gyfer pennu lefel yr ariannu neu'r credyd y gellir ei ganiatáu
12. Goblygiadau caniatáu cyfleusterau cyllid neu gredyd i wahanol fathau o endidau cyfreithiol
13. Ffactorau risg a gallu i greu elw ar gyfer busnes eich sefydliad
14. Sut mae adnabod cyfleoedd i gyd-drafod a chroeswerthu gyda chwsmeriaid
15. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno
2. Rydych yn arddangos uniondeb, tegwch a chysondeb yn y penderfyniadau a wnewch
3. Rydych yn dangos dealltwriaeth glir o wahanol gwsmeriaid a'u hanghenion

Arfarnu ceisiadau am gyfleusterau cyllid a chredyd busnes

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPFC04 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cyllid a Chredyd |
| **Geiriau Allweddol** | Benthyca; rhoi benthyg; penderfyniad benthyca; gostyngiad; cais am forgais; mandad; sicrwydd; hawl; mantolenni; telerau ac amodau; benthyciad; gorddrafft; wedi'i sicrhau; heb ei sicrhau; ôl-ddyledion; credyd |